

Gweithdrefn		
Teitl:	Cysylltiadau Hysbysadwy	
Maes Arfer / Busnes:	Safonau Proffesiynol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Safonau Proffesiynol	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	27/01/10	
Adolygwyd Ddiwethaf:	13/12/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Rhagfyr 2021	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	08	Prif Gwnstabl
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
Rhoi arweiniad i holl bersonél yr heddlu o ran yr hyn y gellid ei ddehongli'n 'gyswllt hysbysadwy' a'r gweithdrefnau y dylai holl bersonél yr heddlu eu dilyn os ystyrir eU Bod yn destun cyswllt hysbysadwy neu os amheuir bod un gan aelod arall o staff.		
GWEITHDREFN:		
Mae bod yn aelod o'r heddlu yn cynnwys cyfrifoldebau a disgwiliadau ym mywydau preifat a phersonol unigolyn sy'n mynd y tu hwnt i'r rhan fwyaf o swyddi eraill. Mae'n rhaid i bob aelod dderbyn hyn ac nid oes modd ei gyd-drafod.		
Os bydd unrhyw aelod yn ansicr a yw'r cyswllt sydd ganddo ag unrhyw unigolyn yn hysbysadwy, mae'n rhaid iddo wneud hysbysiad ffurfiol.		
Gall methiant bwriadol i gydymffurfio olygu bod yr aelod yn destun gweithdrefnau camymddwyn.		
Gallai cysylltiadau hysbysadwy gynnwys:		
<ul style="list-style-type: none"> • Cymdeithasu â phobl y mae ganddynt euogfarnau troseddol neu y mae'n hysbys eu bod yn destun ymchwiliad troseddol. • Ymchwilyr preifat a phobl sy'n dal swydd sy'n ymwneud ag ymchwilio. • Cyswllt â grwpiau neu sefydliadau lle gall rhai pobl fod yn gysylltiedig â thorri'r gyfraith neu weithgarwch troseddol cyfundrefnol, e.e. rhai grwpiau hawliau anifeiliaid eithafol neu hwlighaniaid pêl-droed. • Cyswllt â phobl sydd wedi cael eu diswyddo neu sydd wedi gorfod ymddiswyddo o wasanaeth yr heddlu neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall neu bobl sydd wedi ymddiswyddo ar ôl i weithdrefnau camymddwyn ddechrau. • Cyswllt oddi ar ddyletswydd ag aelodau'r wasg neu'r cyfryngau • Cyswllt â grŵp neu weithgarwch (e.e. clybiau chwaraeon neu glybiau cymdeithasol), lle mae'n hysbys bod aelodau eraill yn gysylltiedig â throseddoldeb. • Cyswllt ag aelodau teulu sy'n dod dan y categori hwn. • Cysylltiadau, a all hefyd gynnwys cysylltiadau a wneir drwy'r cyfryngau cymdeithasol. 		
Bydd yr holl hysbysadau sy'n ymwneud ag aelodau teulu'n benodol yn cael eu rheoli yn y ffordd fwyaf sensitif ac ymarferol posibl a dim ond yn yr achosion mwyaf prin y bydd angen gweithredu ymhellach na hysbysiad cychwynnol ac asesiad.		
Ni chaniateir i'r un aelod gynnal gwiriadau personol, na gofyn i drydydd parti wneud hynny, ar systemau cyfrifiadurol Heddlu De Cymru at ddiben asesu a yw cyswllt yn hysbysadwy.		

Dylai swyddogion a staff sy'n dymuno datgan cyswllt ag aelod o'r cyfryngau neu sefydliad masnachol mawr wneud hynny drwy ddefnyddio'r 'Ffurflen Datgan Cyswllt Hysbysadwy' gan fod yn ymwybodol hefyd o'r Weithdrefn ar gyfer Cyswllt â'r Cyfryngau a Sefydliadau Masnachol.

DYLETSWYDDAU AELODAU

(Mae'r term AELODAU, yng nghyd-destun yr arweiniad hwn, yn cynnwys Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, Cwnstablïaeth Wirfoddol a Gwirfoddolwyr).

- Mae'n rhaid cyflwyno PSD 9 drwy fewnflwch cysylltiadau hysbysadwy'r Adran Safonau Proffesiynol.
- Mae'n rhaid bod y wybodaeth a roddir mor gyflawn a chynhwysfawr ag y bo modd er mwyn galluogi'r Adran Safonau Proffesiynol i gynnal asesiad cywir o risg bersonol a sefydliadol.
- Fel na chodir cywilydd ar bobl drwy wneud datgeliadau sy'n ymwneud â pherthnasau teulu (pa un ai drwy enedigaeth, priodas neu bartneriaethau sifil) bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn dweud wrth yr aelod a oes angen rhoi gwybod i'w reolwr.
- Os bydd newid i'r cyswllt a ddatganwyd, e.e. priodi, canlyniadau llys, pryderon ynghylch gweithgareddau'r cyswllt neu wybodaeth arall a all fod yn debygol o effeithio ar yr asesiad, mae'n rhaid i'r aelod roi gwybod i'r Adran Safonau Proffesiynol drwy ddefnyddio'r PSD 10.
- Mae'r aelodau'n gyfrifol am gydymffurfio â thelerau unrhyw gynllun rheoli risg.

DYLETSWYDDAU'R Adran Safonau Proffesiynol

- Bydd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol neu uwch-aelod dynodedig o'r adran (swyddog adolygu) yn gyfrifol am asesu pob hysbysiad gan yr aelodau sy'n ymwneud â'r arweiniad hwn.
- Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn sicrhau y rhennir yr holl wybodaeth berthnasol â rheolwr fetio'r heddlu.
- Ar sail yr hyn a ddatgelir ac unrhyw wybodaeth arall sy'n hysbys, bydd y "swyddog adolygu" yn defnyddio'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol er mwyn nodi ac asesu risgiau posibl, rhesymol i'r cyhoedd, yr aelod a'r sefydliad.
- Lle y bo angen, bydd y "swyddog adolygu" yn cytuno i gynllun asesu risg â'r aelod dan sylw. Lle y bo'n briodol, gall ei Gomander neu ei Bennaeth Adran ei hun fwrw golwg dros y cynllun rheoli risg.
- Bydd yr holl wybodaeth a gedwir yn ymwneud â Chysylltiadau Hysbysadwy yn cael ei chadw'n ddiogel gan yr Adran Safonau Proffesiynol.

APELIADAU

- Ar achlysuron prin os na ellir cytuno ar delerau cynllun rheoli risg, gall fod angen gosod amodau rhesymol ar yr aelod dan sylw. Yn y fath achosion, bydd gan yr aelod hawl i apelio yn erbyn yr amodau hynny i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol y mae ganddo'r portffolio Safonau Proffesiynol.